Coronafirws: rhestr wirio ar gyfer addysgwyr cyflenwi

Rhestr wirio NEU

Argyfwng Coronavirus

Rhestr wirio Gweithle

Coronafirws: rhestr wirio ar gyfer addysgwyr cyflenwi

Mae'r rhestr wirio hon gan Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU Cymru) ar gyfer aelodau cyflenwi yn rhoi cyngor ar weithio trwy asiantaethau cyflenwi neu'n uniongyrchol gydag ysgolion a cholegau yn dilyn agoriad ehangach o 22 Chwefror.

Mae'n rhoi cyngor i chi ynglŷn â:

- sut i ymateb os cynigir gwaith ichi ond eich bod yn poeni am ddychwelyd i'r gwaith yn gyffredinol neu mewn gweithle penodol.
- sut i ymateb os ydych chi ar ffyrlo a bydd asiantaeth yn gofyn ichi ddatgan eich bod ar gael i weithio.
- sut i ofyn am gyngor a chefnogaeth os ydych chi'n cael eich bygwth ag unrhyw gosb o ganlyniad i fynegi pryderon ynghylch dychwelyd i'r gwaith.

Os ydych chi'n aelod cyflenwi sydd eisoes yn gweithio mewn ysgol neu choleg ar leoliad tymor hir, dylech ddarllen ein cyngor gwahanolar gyfer aelodau NEU Cymru mewn perthynas ag agoriad ehangach.

Agoriad ehangach ysgolion

Gwiriwch sefyllfa ddiweddaraf yr NEU ar agoriad ehangach.

Mae'r NEU yn ceisio sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith ym mhob gweithle i amddiffyn yr holl staff, gan gynnwys staff cyflenwi. Mae gan staff cyflenwi hawl hefyd i dderbyn y profion llif ochrol i'w cwblhau ddwywaith yr wythnos yn unol â pholisi'r ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori ysgolion i sicrhau eu bod yn gallu parhau i gyflogi staff cyflenwi lle bo angen, felly dylid llunio polisïau diogelwch Covid-19 ysgolion gyda staff cyflenwi mewn golwg, yn ogystal â staff parhaol a hyfforddeion. Mae'r NEU hefyd wedi atgoffa pob ysgol am hyn.

Ymateb i gynigion o waith

Ar gyfer y mwyafrif o staff cyflenwi, bydd unrhyw gynnig o waith ar ôl cyfnod mor hir o aflonyddwch a cholled ariannol yn cael ei groesawu, ond bydd llawer eisiau ceisio sicrwydd ynghylch tebygolrwydd ‘diogelwch Covid-19’ gweithleoedd addysg.

Mae gan pob cyflogwr ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr ac eraill sy'n bresennol yn y gweithle (gan gynnwys staff dros dro nad nhw yw'r cyflogwr ar eu cyfer). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r gweithle fod yn ddiogel yn gyffredinol ac i chi yn benodol. Dylid rhoi copi o'r holl weithdrefnau diogelwch i chi wrth gyrraedd yr ysgol, neu ynghynt yn ddelfrydol.

Wrth eich rhoi mewn gweithle, mae gan eich asiantaeth ddyletswydd gofal cyffredinol tuag atoch chi hefyd wrth eich rhoi mewn gweithleoedd mewn perthynas â'ch diogelwch. Cyn iddi gynnig gwaith i chi, dywed y gyfraith bod yn rhaid i'ch asiantaeth ystyried a fydd yn ddiogel ichi weithio yn y gweithle arfaethedig.

Mae'n gyfreithlon ichi ofyn i'ch asiantaeth pa gamau y mae wedi'u cymryd i sicrhau ei hun bod ysgolion yn ddiogel ac iddi gael copïau o weithdrefnau diogelwch i'w darparu i ddarpar staff dros dro.

Gallwch ofyn y cwestiynau canlynol i'r asiantaeth:

- A yw'r asiantaeth yn fodlon bod y gweithle arfaethedig yn ddiogel?
- Pa gamau y mae wedi'u cymryd i sicrhau ei fod?
- A yw wedi gofyn am asesiad risg a gweithdrefnau diogelwch yr ysgol?
- Gall yr asiantaeth ddarparu copi o'r dogfennau hyn i chi cyn i chi fynd i'r ysgol?
- A fyddwch chi'n cael caniatâd (yn ystod amser taledig) i ymgyfarwyddo'n llawn â threfniadau gweithio cyn dechrau ar y gwaith?

Os ydych chi'n poeni am faterion penodol, fe allech chi ofyn hefyd am y canlynol:

- Pellter cymdeithasol – a fydd hyn yn cael ei gynnal yn briodol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru?
- darpariaethau glanhau – a yw'r rhain yn ddigonol?
- darpariaeth OAP – a ddarperir hyn yn ôl yr angen?
- A oes proses tracio ac olrhain ddigonol ar waith?
- A yw cynlluniau mewn perthynas â naill ai achos a amheuir yn yr ysgol, achos yn yr ysgol, neu achos lleol yn ddigonol ac yn gadarn?

Os ydych chi mewn categori agored i niwed neu risg uwch, fe allech chi ofyn:

- A yw'r asiantaeth yn fodlon bod y gweithle'n ddiogel i chi yn bersonol?
- A yw wedi hysbysu'r cyflogwr o'ch amgylchiadau personol ac wedi gofyn i'r cyflogwr eu hystyried trwy asesiad risg unigol os oes angen?

Defnyddiwch ein cyngor ar staff sy'n agored i niwed a risg uwch a gadewch i'ch asiantaeth wybod am unrhyw beth a allai ei gwneud hi'n anodd i chi weithio. Mae hyn yn cynnwys eich iechyd eich hun neu iechyd aelodau'r teulu, neu faterion eraill fel anawsterau gofal plant neu broblemau gyda theithio i unrhyw weithle penodol, ac os oes angen mesurau amddiffynnol neu gefnogol arnoch chi.

Os ydych chi'n gweithio trwy drefniant cwmni ymbarél, y cwmni ymbarél hwnnw yw eich cyflogwr, a chi yn gyfreithiol yw ei gyflogai. Nid yw'r ffaith nad yw yn rhan o'r broses o sicrhau lleoliadau i chi yn ei eithrio o'i gyfrifoldeb mewn perthynas â'ch iechyd a'ch diogelwch fel ei gyflogai os dychwelwch i'r gwaith.

Os oes gennych unrhyw bryderon ar ôl mynd i unrhyw weithle, darganfyddwch enw cynrychiolydd NEU Cymru a siaradwch â nhw yn y lle cyntaf. Os nad oes cynrychiolydd NEU Cymru, cysylltwch â'ch swyddogion ardal NEU.

Ymateb i gwestiynau am argaeledd gwaith os ydych chi ar ffyrlo

Os bydd asiantaeth yn gofyn ichi ddweud a ydych ar gael i weithio ai peidio:

- Atebwch y gallech fod ar gael i weithio ac y byddwch am gael gwybod am yr aseiniadau sydd ar gael.
- Dywedwch y bydd angen i chi drafod diogelwch pob aseiniad unigol, o ystyried y rhwymedigaethau cyfreithiol o ran iechyd a diogelwch ar yr asiantaeth ac ar y cyflogwr yn y gweithle penodol.
- Defnyddiwch ein cyngor ar fregusrwydd yn y gwaith a gadewch i'ch asiantaeth wybod am unrhyw beth a allai ei gwneud hi'n anodd neu'n amhosibl i chi weithio yn yr ysgol, megis eich eich iechyd eich hun, iechyd aelodau'r teulu, neu faterion eraill fel anawsterau gofal plant – neu os oes angen mesurau amddiffynnol neu gefnogol arnoch chi.
- Peidiwch â dweud nad ydych ar gael i weithio yn enwedig tra byddwch chi'n parhau i fod ar ffyrlo.

Ceisio cefnogaeth os ydych chi dan fygythiad o gael eich cosbi

Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori pob cyflogwr i ymdrin ag unrhyw bryderon dilys ynghylch dychwelyd i'r gwaith. Mae hyn yr un mor berthnasol mewn termau moesol i asiantaethau, ac yn sicr mae'n berthnasol mewn termau cyfreithiol i gwmnïau ymbarél â chyflogwyr cyfreithiol.

Dylech ofyn am gefnogaeth gan eich swyddog ardal NEU Cymru os ydych chi'n cael eich bygwth ag unrhyw gosb am ddweud nad ydych chi ar gael i weithio ar sail iechyd neu seiliau rhesymol eraill neu am wrthod gweithio mewn unrhyw weithle y credwch yn rhesymol ei fod yn anniogel.

Mawrth 2021

NEU1892/0620